Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 10 Hydref 2012**

Amser:
**10:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polisi: Claire Morris**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8148 / 029 2089 8032
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14: Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog (10.00 - 11.00) (Tudalennau 1 - 10)

Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau

Emma Smith, Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad

Chris Tweedale, Cyfarwyddwr y Grŵp Ysgolion a Phobl Ifanc

### 3. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14: Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog (11.00 - 12.00) (Tudalennau 11 - 21)

Lesley Griffiths, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

Martin Swain, Dirprwy Gyfarwyddwr, Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

Mark Osland, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a'r cyfarfod ar 18 Hydref (12.00)

## 5. Ystyried y dystiolaeth (12.00 - 12.30)

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

**Dyddiad:** **10 Hydref 2012**

**Amser:** **10:00 – 11:00**

**Lleoliad:** **Senedd**

**Teitl:** **Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau 2013-14**

## Pwrpas

1. Darparu papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y gyllideb Addysg a Sgiliau, blaenoriaethau ar gyfer 2013-14 a diweddariadau ar feysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## Amseriad

2. Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ar 2 Hydref 2012.

## Cyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau 2013-14

3. Mae Cyllideb Ddrafft 2013-14 yn darparu cynllun dwy flynedd ar gyfer buddsoddi yn y ddarpariaeth o addysg a sgiliau yng Nghymru. Yn y Tabl 1 rhoddir trosolwg o'r gyllideb Addysg a Sgiliau arfaethedig, sef y 'prif grŵp gwariant (MEG)', ynghyd â'r newidiadau a wnaed yn y gyllideb ddangosol er pan gyhoeddwyd y Gyllideb Ddangosol ddiwethaf ym Mehefin 2012.

*Tabl 1: MEG Addysg a Sgiliau*

| | 2012-13 Cyllideb Atodol Mehefin 2012 | 2013-14 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol | 2013-14 Newidiadau | 2013-14 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft | 2014-15 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol | 2014-15 Newidiadau | 2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Refeniw | 1,676,529 | 1,694,824 | -21,025 | 1,673,799 | 1,702,459 | -20,825 | 1,681,634 |
| DEL Cyfalaf | 178,293 | 143,834 | 33,300 | 177,134 | 143,834 | 10,000 | 153,834 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,854,822** | **1,838,658** | **12,275** | **1,850,933** | **1,846,293** | **-10,825** | **1,835,468** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 178,309 | 161,285 | 15,584 | 176,869 | 153,310 | 29,839 | 183,149 |
| **Addysg a Sgiliau** | **2,033,131** | **1,999,943** | **27,859** | **2,027,802** | **1,999,603** | **19,014** | **2,018,617** |

4. Mae'r gwariant refeniw ar gyfer 2013-14 £21m yn llai,, o gymharu â'r gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Derfynol yn Nhachwedd 2011, sef gostyngiad o 1.2%. Mae'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2014-15 hefyd £20.8m (1.2%) yn llai, o gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd. Mae'r gostyngiad yn y gyllideb refeniw yn digwydd o ganlyniad i drosglwyddo cyllid i bortffolios eraill, yn hytrach na thoriad yn y gyllideb. Bydd Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ariannu cyllidebau'r Fenter Brecwast am

Ddim mewn Ysgolion Cynradd, Blas am Oes a'r Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion i Grant Cynnal Refeniw yr awdurdodau lleol. Canlyniad hynny fydd trosglwyddiad rheolaidd i'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, sef £21.8m yn 2013-14.

5. Mae'r gyllideb cyfalaf yn cynyddu o £33.3m i £177.1m yn 2013-14 ac o £10m yn 2014-15 o gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd.

6. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud yn gyfan gwbl â benthyciadau myfyrwyr, sy'n dibynnu ar y galw amdanynt ac yn sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill ac felly yn anodd i'w rhagweld. Cytunir y gyllideb hon gyda'r Trysorlys yn flynyddol a chyllidir hi'n llawn. Mae'r gyllideb yn cynyddu o £15.6m yn 2013-14, ac o £29.8m yn 2014-15.

7. Yn y cylch cyllidebu diwethaf, ailaliniwyd y MEG Addysg a Sgiliau er mwyn i'r adnoddau gyfateb i'r canlyniadau strategol adrannol ac er mwyn gwella tryloywder y cyllidebau. Cyhoeddwyd y cynlluniau cyllideb ar y lefel 'Camau Gweithredu' ar 2 Hydref. Rhoddir mwy o fanylion yn y tabl o'r llinellau gwariant cyllidebol (BEL) yn Atodiad 1.

**Cyd-destun y Gyllideb**

8. Mae'r gyllideb hon yn digwydd yng nghyd-destun y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU yn ei hadolygiad gwariant diwethaf, a'r cynlluniau i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu yn ogystal â chyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol. Nid oes cyllid refeniw newydd ar gael, ac felly mae'r gyllideb hon yn trosglwyddo ymlaen, heb eu newid, lawer o'r cyllidebau dangosol a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn Chwefror eleni. Fodd bynnag, mae'r MEG Addysg a Sgiliau wedi sicrhau dyraniadau cyfalaf ychwanegol o £33.3m yn 2013-14 (£10m yn 2014-15) i gynorthwyo gyda chyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi ac ar gyfer prosiectau penodol o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog:

- Buddsoddi yn **Ysgolion yr 21ain Ganrif:** £15m yn 2013-14 a 2014-15;
- estyn, adnewyddu ac **adeiladu o'r newydd ysgolion uwchradd yn rhanbarth Dinefwr** yn Sir Gaerfyrddin: £7m yn 2013-14;
- **prosiect Porth y Cymoedd** i adeiladu ysgol newydd yn ardal Ton-du ym Mhen-y-bont ar Ogwr: £2.1m yn 2013-14;
- **prosiect Ardal Ddysgu Merthyr** i ddwyn at ei gilydd ddosbarthiadau chwech Merthyr Tudful, Coleg Merthyr Prifysgol Morgannwg, ac Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd: £3m yn 2013-14;
- **prosiect Ysgol y Bont ym Môn** i gynorthwyo gydag adeiladu ysgol werdd newydd a modern: £4.7m yn 2013-14; a

- **ysgol gyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer Wrecsam yng Ngogledd Cymru**: £1.5m.

9. Trosglwyddir £1.3m ychwanegol allan o Iaith Gymraeg i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, swm sy'n cyfateb i gostau gweinyddu blaenorol Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a ddiddymwyd yn gynharach eleni.

10. Ar y llaw arall, trosglwyddir cyllid o £2.1m (£2.3m yn 2014-15) i mewn i Addysg a Sgiliau allan o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar gyfer taliadau i Brifysgol Caerdydd am hyfforddiant meddygol a deintyddol.

11. Mewn adolygiad o'r cyllidebau, a wnaed wrth baratoi'r gyllideb hon, canfuwyd £5.7m o arbedion posibl, sydd wedi eu hail flaenoriaethu ar gyfer ymrwymiadau eraill, megis cymorth i fyfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu mewn colegau AB, ac estyn yr hawl i gael Grant Amddifadedd Disgyblion i blant sy'n derbyn gofal.

12. Wrth baratoi ar gyfer Cyllideb Derfynol 2012-13, cynhaliwyd ymarferiad ailalinio er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau gwario yn cyfateb i'n hamcanion strategol, sy'n cynnwys ymrwymiadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu (RhL). Yn y gyllideb hon, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r cyllidebau, gan ystyried a oedd yr ymrwymiadau allweddol, gan gynnwys ymrwymiadau'r RhL, wedi eu cyllido'n ddigonol. Arweiniodd hynny at nifer o newidiadau yn ein cynigion ar gyfer gwariant, gan gynnwys y newidiadau a ddisgrifir ym mharagraffau 26 a 27 sy'n amcanu i ganolbwyntio adnoddau ar bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth na hyfforddiant. Rydym yn hyderus bod yr ymrwymiadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu yn cael eu hariannu'n ddigonol gan y gyllideb hon. Mae map o'n Camau Gweithredu gyferbyn ag Is-ganlyniadau'r RhL wedi ei gyhoeddi yn nogfen y Gyllideb Ddrafft. Byddwn yn parhau i fonitro'r perfformiad gyferbyn â'r ymrwymiadau RhL, yn rhan o'r broses o adrodd yn flynyddol.

13. Mae'r gyllideb hon yn cymryd i ystyriaeth ein rhaglen ddeddfwriaethol. Ynglŷn â'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), rydym wedi gwneud darpariaeth yn y gyllideb hon i drosglwyddo cyfanswm o £21.8m i'r Grant Cynnal Refeniw yn 2013-14. Bydd unrhyw gostau pellach mewn cysylltiad â datblygu gweithredu'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) a'r Bil Addysg (Cymru) yn cael eu diwallu o fewn y cynlluniau hyn. Ni ragwelir, fodd bynnag, y bydd unrhyw gostau sylweddol yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth honno.

14. Rhoddwyd lle canolog i ystyriaethau cydraddoldeb wrth ddatblygu ein cynlluniau gwario; ac fel y gwnaed yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r newidiadau mewn cyllido sy'n tarddu o'r gyllideb hon wedi eu hasesu o ran eu heffaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Rydym hefyd wedi cadw mewn cof ein hymrwymiadau o dan Gynllun Cydraddoldeb Strategol

Llywodraeth Cymru, sef yn benodol, lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**Crynodeb o Newidiadau'r Gyllideb Ddrafft**

15. Darperir crynodeb isod o'r newidiadau cyllidebol drafft ar gyfer pob cyllideb lefel Camau Gweithredu, ynghyd â diweddariadau ar feysydd o ddiddordeb penodol a nodwyd gan y Cadeirydd yn ei llythyr dyddiedig 12 Medi 2012.

***Safonau Addysg a Hyfforddiant:*** ***"codi safonau'r ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant, y cyrhaeddiad a'r seilwaith ledled Cymru, fel y gall pawb wireddu eu potensial."***

***Llythrennedd a Rhifedd: Cyllideb 2013-14 £7.5m***

| 2012-13 Cyllideb Atodol Mehefin 2012 £000 | 2013-14 Cyllideb Ddrafft £000 | 2014-15 Cyllideb Ddangosol £000 |
|---|---|---|
| 1,166,961 | 1,184,252 | 1,189,052 |

16. Ni chynigir unrhyw newidiadau yn y gyllideb llythrennedd a rhifedd yn y cylch cyllidebu hwn. Fodd bynnag, mae cyllideb 2013-14 £2m yn fwy, o gymharu â chyllideb derfynol 2012-13.

***Cwricwlwm: Cyllideb 2013-14 £125.1m***

17. Mae'r gyllideb yn cynyddu o £2.4m net, o gymharu â 2012-13. Mae'r gyllideb yn cynnwys Dysgu 14-19 a'r Cyfnod Sylfaen. Ein bwriad yw lleihau'r gyllideb o £0.9m, o gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd eisoes. Yn ein hadolygiad o gyllidebau, canfuwyd arbedion rheolaidd o £0.2m gyferbyn â'r gyllideb Dysgu 14-19. Trosglwyddwyd £0.7m arall ar sail reolaidd i'r gyllideb Gwasanaethau Ymchwil a Gwerthuso Addysg ar gyfer Cymorth Cyflawni. Gwnaed hyn o ganlyniad i gyfuno mewn un rhaglen y cyllidebau ar gyfer ymchwil ryngwladol a gwerthuso. Mae cyllideb y cyfnod sylfaen yn cynyddu o £3.9m o gymharu â 2012-13.

***Addysgu ac Arweinyddiaeth: Cyllideb 2013-14 £19.8m***

18. Mae'r gyllideb yn llai o £0.1m net, o gymharu â 2012-13. Ein bwriad yw lleihau'r gyllideb o £0.1m, o gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd eisoes. Trosglwyddwyd £0.1m ar sail reolaidd i'r gyllideb Gwasanaethau Ymchwil a Gwerthuso Addysg ar gyfer Cymorth Cyflawni. Mae hyn yn ganlyniad y cyfuno y cyfeirir ato ym mharagraff 17.

***Cymwysterau: Cyllideb 2013-14 £5m***

19. Mae'r gyllideb yn llai o £3.8m net, o gymharu â 2012-13. Mae'r Fagloriaeth Gymreig wedi ei sefydlu'n gadarn bellach a'n bwriad yw trosglwyddo £4.7m i Addysg Ôl-16 er mwyn galluogi'r colegau addysg bellach i gyflenwi'r Fagloriaeth Gymreig. Adlewyrchid y trosglwyddiad hwn eisoes yng nghyllideb 2012-13. Yn ychwanegol, canfuwyd arbedion rheolaidd o £3.8m o ganlyniad i'n hadolygiad o gyllidebau. Rydym bellach wedi cyrraedd cam olaf ein Hadolygiad o Gymwysterau 14-19. Bydd y Bwrdd Adolygu yn cyflwyno'i ganfyddiadau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau erbyn diwedd Tachwedd.

*Addysg Ôl-16: Cyllideb 2013-14 £563m*

20. Mae'r gyllideb yn cynyddu o £7.1m net, o gymharu â 2012-13. Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid prif-ffrwd ar gyfer dosbarthiadau chwech mewn ysgolion, colegau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith (gan gynnwys cyllid ESF a dderbynnir) a dysgu oedolion yn y gymuned. Yn y cylch cyllidebu hwn, ein bwriad yw cynyddu'r gyllideb o £4.6m (net). Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiad rheolaidd i mewn o £4.7m o Cymwysterau i alluogi'r colegau addysg bellach i gyflenwi'r Fagloriaeth Gymreig (adlewyrchwyd hyn eisoes yng nghyllideb 2012-13). Cynhwysir hefyd drosglwyddiad o £0.1 i'r gyllideb Gwasanaethau Ymchwil a Gwerthuso Addysg ar gyfer Cymorth Cyflawni. Gwneir hyn o ganlyniad i'r cyfuno y cyfeirir ato ym mharagraff 17. Mae'r cynlluniau hyn yn cynorthwyo'n llawn y ddarpariaeth i bobl ifanc sy'n dymuno aros yn yr ysgol neu fynd i goleg i wella'u sgiliau. Yn ogystal, mae'n adlewyrchu'r angen i gynnal y ddarpariaeth o sgiliau, er mwyn cynorthwyo twf yr economi i yn y dyfodol.

*Addysg Uwch: Cyllideb 2013-14 £382.3m*

21. Mae'r gyllideb yn llai o £0.1m net, o gymharu â 2012-13. Yn y gyllideb hon rydym wedi cynnwys trosglwyddiadau i mewn o £2.1m yn 2013-14 a £2.3m yn 2014-15 o'r MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar gyfer taliadau i Brifysgol Caerdydd am hyfforddiant meddygol a deintyddol. Mae trosglwyddiad cyfatebol o £2m eisoes wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2012-13.

*Strwythurau Addysg: Cyllideb 2013-14 £2.9m*

22. Mae'r gyllideb yn llai o £1m net, o gymharu â 2012-13. Mae a wnelo'r gyllideb hon ag agenda'r trawsnewid mewn addysg bellach. Ein bwriad yw lleihau'r gyllideb o £1m, o'r arbedion rheolaidd a ganfuwyd yn ein hadolygiad o'r cyllidebau.

*Safonau Addysg: Cyllideb 2013-14 £34.4m*

23. Mae'r gyllideb yn cynyddu o £6.6m net, o gymharu â 2012-13. Ni chynllunnir unrhyw newidiadau sylweddol yn y gyllideb hon. Fodd bynnag, mae codiadau o £6.6m yn 2013-14 a £2.9m yn 2014-15, a ganfuwyd drwy wella effeithlonrwydd, wedi eu cynnwys o'r cylchoedd cyllidebu blaenorol.

*Grant Amddifadedd Disgyblion: Cyllideb 2013-14 £36.8m*

24. Mae'r gyllideb yn cynyddu o £4.7m net, o gymharu â 2012-13. Cynhwyswyd cynnydd o £3.3m mewn cyllidebau blaenorol. Cynhwysir cynnydd pellach o £1.4m yn y gyllideb hon, a fydd yn caniatáu inni ddarparu cyllid hollbwysig ar gyfer plant mewn oedran ysgol sy'n derbyn gofal. Mae creu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn atgyfnerthu bwriad Llywodraeth Cymru i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol plant. Mae'n darparu cyllid ychwanegol sylweddol i blant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig, er mwyn sicrhau bod ysgolion yn ymgymryd â'u cenhadaeth gyffredinol o symud y rhwystrau sy'n atal dysgu, a gosod safonau uchel a chyson ar gyfer pob plentyn.

***TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth: Cyllideb 2013-14 £7.4m***

25. Mae’r gyllideb yn llai o £0.1m net, o gymharu â 2012-13. Mae’r gostyngiad yn ymwneud ag arbedion effeithlonrwydd a ganfuwyd mewn cyllidebau blaenorol. Ni chynigir unrhyw newidiadau yn y gyllideb hon.

***Gweithlu Medrus:*** ***“Cyflenwi gweithlu sydd â sgiliau addas, ynghyd â chyfleoedd o ansawdd uchel i bob dysgwr.”***

***Cyflogaeth a Sgiliau: Cyllideb 2013-14 £31.7m***

| 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Mehefin 2012 | Cyllideb Ddrafft | Cyllideb Ddangosol |
| £000 | £000 | £000 |
| 89,649 | 81,403 | 81,403 |

26. Mae’r gyllideb yn llai o £3.3m net, o gymharu â 2012-13. Mae’r cyllidebau blaenorol ar gyfer Datblygu Sgiliau a Dysgu yn y Gweithle a Chyflogadwyedd wedi eu had-drefnu i’w gwneud yn fwy cydnaws â’r Rhaglen Lywodraethu. Enw’r llinell wariant ‘Datblygu Sgiliau a Dysgu yn y Gweithle’ bellach yw ‘Cyflogaeth a Sgiliau', a throsglwyddwyd £3.7m i mewn iddi o’r gyllideb Cyflogadwyedd. Yn y gyllideb derfynol y llynedd, canfuwyd £7.2m o gyllid untro ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Recriwtiaid Ifanc a Sgiliau Twf Cymru, yn rhan o’r pecyn ysgogi economaidd na fydd yn cael ei gynnwys mewn cyllidebau yn y dyfodol. Mae swm o £0.2m wedi ei drosglwyddo ar sail reolaidd i’r gyllideb Gwasanaethau Ymchwil a Gwerthuso Addysg ar gyfer Cymorth Cyflawni. Gwnaed hyn o ganlyniad i’r cyfuno y cyfeirir ato ym mharagraff 17.

***Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid: Cyllideb 2013-14 £19.7m***

27. Mae’r gyllideb yn cynyddu o £1.1m net, o gymharu â 2012-13. Yn y gyllideb hon canolbwyntir ar ein hymrwymiad i leihau’r nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Rydym hefyd wedi creu Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid i yrru ymlaen â’r agenda bwysig hon. O ganlyniad, mae’r gyllideb Cefnogi Pobl Ifanc flaenorol o £5m wedi ei throsglwyddo i mewn, a £3.7m wedi ei drosglwyddo allan o’r gyllideb hon i’r gyllideb Cyflogaeth a Sgiliau. Yn ogystal, gwnaed lleihad o £0.2m o gymharu â’r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol, oherwydd trosglwyddo gweithgareddau rhyngwladol i’r gyllideb Gwasanaethau Ymchwil a Gwerthuso Addysg, yn rhan o ymarferiad lliflinio.

***Dewisiadau Addysg a Gyrfa: Cyllideb 2013-14 £30m***

28. Mae’r gyllideb yn llai o £6m net, o gymharu â 2012-13. Mae’r gostyngiadau yn ymwneud yn gyfan gwbl â newidiadau mewn cyllidebau blaenorol, pan wnaed arbedion drwy ad-drefnu’r dull o gyflenwi Gwasanaeth Gyrfaoedd.

***Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb:*** ***"Cynorthwyo unigolion, teuluoedd, cymunedau a busnesau i wella lles economaidd a chymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb drwy gyfrwng addysg a hyfforddiant."***

### *Lles Plant a Phobl Ifanc: Cyllideb 2013-14 £47.3m*

| 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Mehefin 2012<br>£000 | Cyllideb Ddrafft<br>£000 | Cyllideb Ddangosol<br>£000 |
| 390,752 | 379,019 | 382,054 |

29. Mae'r gyllideb yn llai o £15.3m net, o gymharu â 2012-13. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllid ar gyfer Lleoliadau i Fyfyrwyr ag Anawsterau Dysgu mewn Sefydliadau AB, AAA Ôl-16, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llaeth Ysgol. Mae'r cyfrifoldeb am gyllid o £21.8m ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, y Rhaglen Blas am Oes a Chwnsela mewn Ysgolion wedi ei drosglwyddo ar sail reolaidd i'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae'r gyllideb yn manteisio ar gynnydd o £4.2m i liniaru'r pwysau ar y gyllideb Lleoliadau i Fyfyrwyr ag Anawsterau Dysgu mewn Sefydliadau AB, a ganfuwyd yn yr adolygiad o gyllidebau ac a gyllidir o arbedion effeithlonrwydd ar draws y MEG. Roedd codiadau o £2.3m wedi eu cynnwys mewn cyllidebau blaenorol.

30. Mae'r cynlluniau hyn yn cefnogi'r rhaglen o newid sy'n gysylltiedig â diwygio AAA, ac yn cynnwys cyllid ar gyfer gwaith datblygu mewn 8 awdurdod lleol. Neilltuwyd arian ar gyfer rhaglen dreigl o hyfforddiant mewn defnyddio offer a fydd yn sicrhau gwell cynllunio, gwell canlyniadau, cyfranogiad rhieni a ffyrdd o ddatrys anghydfod mewn perthynas â'r diwygiadau AAA.

### *Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16: Cyllideb 2013-14 £319m*

31. Mae'r gyllideb yn cynyddu o gymharu â 2012-13, o £8m net, a oedd wedi ei gynnwys mewn cyllidebau blaenorol. Mae'r gyllideb yn cynorthwyo cyllid myfyrwyr ac yn cynnwys Grant Dysgu'r Cynulliad, Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Dyfarniadau a Dargedir a'r elfen anariannol mewn benthyciadau myfyrwyr.

### *Ennyn Diddordeb Disgyblion: Cyllideb 2013-14 £12.8m*

32. Mae'r gyllideb yn cynyddu o gymharu â 2012-13, o £0.6m net a oedd wedi ei gynnwys mewn cyllidebau blaenorol. Mae'r gyllideb yn cynnwys y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr a Threchu Dadrithiad.

***Y Gymraeg:*** ***"Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru."***

### *Y Gymraeg mewn Addysg: Cyllideb 2013-14 £16.2m*

| 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Mehefin 2012<br>£000 | Cyllideb Ddrafft<br>£000 | Cyllideb Ddangosol<br>£000 |
| 24,976 | 25,076 | 25,076 |

33. Mae'r gyllideb yn llai o gymharu â 2012-13, o £0.2m net a oedd wedi ei gynnwys mewn cyllidebau blaenorol. Mae'r gyllideb yn parhau'r cymorth ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg sy'n un o ymrwymiadau allweddol ein Rhaglen Lywodraethu.

### *Y Gymraeg: Cyllideb 2013-14 £8.9m*

34. Mae'r gyllideb yn llai o gymharu â 2012-13, o £0.3m net a oedd wedi ei gynnwys mewn cyllidebau blaenorol.

**Cymorth Cyflawni:** ***"Mae adnoddau'n cael eu rheoli ac yn cynorthwyo cyflawni'r canlyniadau."***

### *Cyfathrebu Strategol: Cyllideb 2013-14 £1.5m*

| 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Mehefin 2012 | Cyllideb Ddrafft | Cyllideb Ddangosol |
| £000 | £000 | £000 |
| 4,191 | 4,049 | 4,049 |

35. Ni chynigir unrhyw newidiadau sylweddol yn y gyllideb hon.

### *Ymchwil a Gwasanaethau Addysg: Cyllideb 2013-14 £2.6m*

36. Cynyddir y gyllideb ddangosol o £1m o gymharu â'r cynlluniau cyhoeddedig blaenorol, oherwydd trosglwyddo gweithgareddau rhyngwladol i mewn i Ymchwil a Gwasanaethau Addysg, o ganlyniad i ymarferiad lliflinio. Fodd bynnag, adlewyrchwyd y newid eisoes yng nghyllideb 2012-13.

### *Cyfalaf*

37. Mae'r gyllideb yn llai o £1.1m net, o gymharu â 2012-13. Fodd bynnag, mae'r gyllideb yn cael budd o £33.3m mewn arian newydd (£10m yn 2014-15).

| 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Cyllideb Atodol Mehefin 2012 | Cyllideb Ddrafft | Cyllideb Ddangosol |
| £000 | £000 | £000 |
| 178,293 | 177,134 | 153,834 |

38. Darperir cyllid o £15m i alluogi cyflymu nifer o gynlluniau o dan y Rhaglen Fuddsoddi mewn Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, yn unol â'r flaenoriaeth buddsoddi 'Gwella ansawdd yr ystâd addysgol' a bennir yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi.

39. Darperir £18.3m ychwanegol o'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog ar gyfer y prosiectau penodol a ddisgrifir ym mharagraff 8.

**Crynodeb**

40. Cyflwynir y Gyllideb Ddrafft Addysg a Sgiliau ar gyfer 2013-14 i'w hystyried gan y pwyllgor.

## MEG ADDYSG A SGILIAU - CYLLIDEB DDRAFFT 2013-14
## CYLLIDEB REFENIW Y TERFYN GWARIANT ADRANNOL (DEL)

| Y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | 2012-13 | 2013-14 | | | 2014-15 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2012 | Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Tach 2011 | Newidiadau Arfaethedig | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft Hydref 2012 | Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Tach 2011 | Newidiadau Arfaethedig | Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft Hydref 2012 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Llythrennedd a Rhifedd | 5,512 | 7,512 | | 7,512 | 7,512 | | 7,512 |
| **Llythrennedd a Rhifedd** | **5,512** | **7,512** | **0** | **7,512** | **7,512** | **0** | **7,512** |
| Dysgu 14-19 oed yng Nghymru | 17,252 | 16,009 | -250 | 15,759 | 16,009 | -250 | 15,759 |
| Y Cyfnod Sylfaen | 97,151 | 101,051 | | 101,051 | 101,051 | | 101,051 |
| Y Cwricwlwm ac Asesu | 8,250 | 8,943 | -693 | 8,250 | 8,943 | -693 | 8,250 |
| **Y Cwricwlwm** | **122,653** | **126,003** | **-943** | **125,060** | **126,003** | **-943** | **125,060** |
| Datblygu a Chefnogi Athrawon | 19,982 | 19,915 | -66 | 19,849 | 20,115 | -66 | 20,049 |
| **Addysgu ac Arweinyddiaeth** | **19,982** | **19,915** | **-66** | **19,849** | **20,115** | **-66** | **20,049** |
| Cymwysterau gan gynnwys Bagloriaeth Cymru | 8,868 | 13,568 | -8,523 | 5,045 | 13,568 | -8,523 | 5,045 |
| **Cymwysterau** | **8,868** | **13,568** | **-8,523** | **5,045** | **13,568** | **-8,523** | **5,045** |
| Y Ddarpariaeth Addysg Bellach | 449,891 | 451,032 | 4,700 | 455,732 | 451,032 | 4,700 | 455,732 |
| Dysgu Seiliedig ar Waith | 128,710 | 130,000 | -23,392 | 106,608 | 130,000 | -23,392 | 106,608 |
| Datblygu polisi Addysg Bellach | 666 | 736 | -70 | 666 | 736 | -70 | 666 |
| Derbyniadau ôl-16 | -23,392 | -23,392 | 23,392 | 0 | -23,392 | 23,392 | 0 |
| **Addysg ôl-16** | **555,875** | **558,376** | **4,630** | **563,006** | **558,376** | **4,630** | **563,006** |
| Costau Rhedeg CCAUC | 2,908 | 2,768 | | 2,768 | 2,768 | | 2,768 |
| Refeniw Addysg Uwch | 358,083 | 348,732 | 2,100 | 350,832 | 348,732 | 2,300 | 351,032 |
| Derbyniadau Addysg Uwch | -2,798 | -2,798 | | -2,798 | -2,798 | | -2,798 |
| Prosiectau Er Mwyn Ein Dyfodol | 24,100 | 31,500 | -100 | 31,400 | 31,500 | -100 | 31,400 |
| Dibrisiant CCAUC | 82 | 82 | | 82 | 82 | | 82 |
| **Addysg Uwch** | **382,375** | **380,284** | **2,000** | **382,284** | **380,284** | **2,200** | **382,484** |
| Trawsnewid | 3,943 | 3,943 | -1,000 | 2,943 | 3,943 | -1,000 | 2,943 |
| **Strwythurau Addysg** | **3,943** | **3,943** | **-1,000** | **2,943** | **3,943** | **-1,000** | **2,943** |
| Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | 25,533 | 32,101 | | 32,101 | 35,035 | | 35,035 |
| Cefnogi Safonau Ysgolion | 2,249 | 2,279 | -30 | 2,249 | 2,279 | -30 | 2,249 |
| **Safonau Addysg** | **27,782** | **34,380** | **-30** | **34,350** | **37,314** | **-30** | **37,284** |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | 32,433 | 35,315 | 1,465 | 36,780 | 36,781 | 1,465 | 38,246 |
| **Grant Amddifadedd Disgyblion** | **32,433** | **35,315** | **1,465** | **36,780** | **36,781** | **1,465** | **38,246** |
| Y Rhaglen TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth | 7,538 | 7,423 | | 7,423 | 7,423 | | 7,423 |
| **Y Rhaglen TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth** | **7,538** | **7,423** | **0** | **7,423** | **7,423** | **0** | **7,423** |
| **Safonau Addysg a Hyfforddiant** | **1,166,961** | **1,186,719** | **-2,467** | **1,184,252** | **1,191,319** | **-2,267** | **1,189,052** |
| Cyflogaeth a Sgiliau | 34,986 | 28,356 | 3,301 | 31,657 | 28,356 | 3,301 | 31,657 |
| **Cyflogaeth a Sgiliau** | **34,986** | **28,356** | **3,301** | **31,657** | **28,356** | **3,301** | **31,657** |
| Ymgysylltu ag Ieuenctid a Chyflogaeth | 18,663 | 18,683 | 1,063 | 19,746 | 18,683 | 1,063 | 19,746 |
| **Ymgysylltu ag Ieuenctid a Chyflogaeth** | **18,663** | **18,683** | **1,063** | **19,746** | **18,683** | **1,063** | **19,746** |
| Gyrfa Cymru | 36,000 | 30,000 | | 30,000 | 30,000 | | 30,000 |
| **Dewisiadau Addysg Gyrfa** | **36,000** | **30,000** | **0** | **30,000** | **30,000** | **0** | **30,000** |
| **Gweithlu Medrus** | **89,649** | **77,039** | **4,364** | **81,403** | **77,039** | **4,364** | **81,403** |
| Cefnogi Pobl Ifanc | 4,984 | 4,994 | -4,994 | 0 | 4,994 | -4,994 | 0 |
| **Cyfleoedd Mynediad** | **4,984** | **4,994** | **-4,994** | **0** | **4,994** | **-4,994** | **0** |
| Lleoliadau Arb. / SAB Myfyrwyr ag Anawsterau Dysgu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | 12,294 | 12,294 | 3,708 | 16,002 | 12,294 | 3,708 | 16,002 |
| Cwnsela Mewn Ysgolion | 4,750 | 5,000 | -4,500 | 500 | 5,000 | -4,500 | 500 |
| Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 17,850 | 19,850 | -16,800 | 3,050 | 19,985 | -16,800 | 3,185 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 3,296 | 3,296 | | 3,296 | 3,296 | | 3,296 |
| Cynhwysiant ôl-16 a Chymorth i Ddysgwyr AAA | 24,440 | 24,440 | 0 | 24,440 | 24,440 | 0 | 24,440 |
| **Lles Plant a Phobl Ifanc** | **62,630** | **64,880** | **-17,592** | **47,288** | **65,015** | **-17,592** | **47,423** |
| Grant Dysgu'r Cynulliad | 196,323 | 198,232 | | 198,232 | 198,232 | | 198,232 |
| Costau Gweinyddol SLC/HMRC | 7,985 | 7,469 | | 7,469 | 7,469 | | 7,469 |
| Tâl RAB Benthyciadau Myfyrwyr | 97,218 | 103,818 | | 103,818 | 106,718 | | 106,718 |
| Dyfarniadau a Dargedwyd | 9,454 | 9,454 | | 9,454 | 9,454 | | 9,454 |
| **Cymorth i Ddysgwyr ôl-16** | **310,980** | **318,973** | **0** | **318,973** | **321,873** | **0** | **321,873** |
| Trechu Dadrithiad | 1,158 | 1,158 | | 1,158 | 1,158 | | 1,158 |
| Grantiau ar gyfer Addysg Plant Teithwyr | 1,000 | 1,100 | | 1,100 | 1,100 | | 1,100 |
| Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig | 10,000 | 10,500 | | 10,500 | 10,500 | | 10,500 |
| **Ennyn Diddordeb Disgyblion** | **12,158** | **12,758** | **0** | **12,758** | **12,758** | **0** | **12,758** |
| **Lles Econ. a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb** | **390,752** | **401,605** | **-22,586** | **379,019** | **404,640** | **-22,586** | **382,054** |

| Y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | 2012-13 Cyllideb Atodol Mehefin 2012 £000 | 2013-14 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Tach 2011 £000 | 2013-14 Newidiadau Arfaethedig £000 | 2013-14 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft Hydref 2012 £000 | 2014-15 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Tach 2011 £000 | 2014-15 Newidiadau Arfaethedig £000 | 2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft Hydref 2012 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gymraeg mewn Addysg | 16,412 | 12,377 | 3,835 | 16,212 | 12,377 | 3,835 | 16,212 |
| **Y Gymraeg mewn Addysg** | **16,412** | **12,377** | **3,835** | **16,212** | **12,377** | **3,835** | **16,212** |
| Y Gymraeg | 8,564 | 14,078 | -5,214 | 8,864 | 14,078 | -5,214 | 8,864 |
| **Y Gymraeg** | **8,564** | **14,078** | **-5,214** | **8,864** | **14,078** | **-5,214** | **8,864** |
| **Y Gymraeg** | **24,976** | **26,455** | **-1,379** | **25,076** | **26,455** | **-1,379** | **25,076** |
| Cyfathrebu Strategol | 1,544 | 1,483 | | 1,483 | 1,483 | | 1,483 |
| Gwasanaethau Ymchwil a Gwerthuso Addysg | 2,647 | 1,523 | 1,043 | 2,566 | 1,523 | 1,043 | 2,566 |
| **Cymorth Cyflawni** | **4,191** | **3,006** | **1,043** | **4,049** | **3,006** | **1,043** | **4,049** |
| **Refeniw DEL Add. a Sgiliau (gan gynnwys heblaw arian)** | **1,676,529** | **1,694,824** | **-21,025** | **1,673,799** | **1,702,459** | **-20,825** | **1,681,634** |

## Y GYLLIDEB GYFALAF - CYFALAF DEL

| Y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | 2012-13 Cyllideb Atodol Mehefin 2012 £000 | 2013-14 Cynlluniau Dangosol y £000 | 2013-14 Newidiadau Arfaethedig £000 | 2013-14 Cynlluniau Newydd y £000 | 2014-15 Cynlluniau Dangosol y £000 | 2014-15 Newidiadau Arfaethedig £000 | 2014-15 Cynlluniau Newydd y £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Cyffredinol | 48,278 | 43,021 | | 43,021 | 43,021 | | 43,021 |
| Buddsoddiad Strategol | 130,015 | 100,713 | 33,400 | 134,113 | 100,713 | 10,100 | 110,813 |
| **Yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG** | **178,293** | **143,734** | **33,400** | **177,134** | **143,734** | **10,100** | **153,834** |
| **Safonau Addysg a Hyfforddiant** | **178,293** | **143,734** | **33,400** | **177,134** | **143,734** | **10,100** | **153,834** |
| Cronfa Cymru Ddwyieithog - Cyfalaf | 0 | 100 | -100 | 0 | 100 | -100 | 0 |
| **Y Gymraeg** | **0** | **100** | **-100** | **0** | **100** | **-100** | **0** |
| **Cyfalaf DEL Addysg a Sgiliau** | **178,293** | **143,834** | **33,300** | **177,134** | **143,834** | **10,000** | **153,834** |

## GWARIANT A REOLIR YN FLYNYDDOL

| Y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | 2012-13 Cyllideb Atodol Mehefin 2012 £000 | 2013-14 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Tach 2011 £000 | 2013-14 Newidiadau Arfaethedig £000 | 2013-14 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft Hydref 2012 £000 | 2014-15 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Tach 2011 £000 | 2014-15 Newidiadau Arfaethedig £000 | 2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft Hydref 2012 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AME Cyfalaf Benthyciadau Myfyrwyr | 267,342 | 269,740 | -5,610 | 264,130 | 279,284 | 6,418 | 285,702 |
| AME Cyfalaf Benthyciadau Myfyrwyr | -89,033 | -108,455 | 21,194 | -87,261 | -125,974 | 23,421 | -102,553 |
| **Cymorth i Ddysgwyr ôl-16** | **178,309** | **161,285** | **15,584** | **176,869** | **153,310** | **29,839** | **183,149** |
| **Lles Econ. a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb** | **178,309** | **161,285** | **15,584** | **176,869** | **153,310** | **29,839** | **183,149** |
| **AME Addysg a Sgiliau** | **178,309** | **161,285** | **15,584** | **176,869** | **153,310** | **29,839** | **183,149** |

## MEG ADDYSG A SGILIAU - CRYNODEB

| | 2012-13 Cyllideb Atodol Mehefin 2012 £000 | 2013-14 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Tach 2011 £000 | 2013-14 Newidiadau Arfaethedig £000 | 2013-14 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft Hydref 2012 £000 | 2014-15 Cynlluniau Dangosol y Gyllideb Derfynol Tach 2011 £000 | 2014-15 Newidiadau Arfaethedig £000 | 2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft Hydref 2012 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw DEL | 1,676,529 | 1,694,824 | -21,025 | 1,673,799 | 1,702,459 | -20,825 | 1,681,634 |
| Cyfalaf DEL | 178,293 | 143,834 | 33,300 | 177,134 | 143,834 | 10,000 | 153,834 |
| **Cyfanswm DEL** | **1,854,822** | **1,838,658** | **12,275** | **1,850,933** | **1,846,293** | **-10,825** | **1,835,468** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 178,309 | 161,285 | 15,584 | 176,869 | 153,310 | 29,839 | 183,149 |
| **Addysg a Sgiliau** | **2,033,131** | **1,999,943** | **27,859** | **2,027,802** | **1,999,603** | **19,014** | **2,018,617** |

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**
**Dyddiad: 10 Hydref 2012**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd**
**Teitl: Craffu ar y Gyllideb Ddrafft**

**Diben**

Darparu papur tystiolaeth ar gyllidebau a blaenoriaethau'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Phlant o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

**Cyflwyniad**

Cyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft ar 2 Hydref 2012. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am gynigion cyllideb y dyfodol ar gyfer 2013-14 a 2014-15.

Mae gwariant plant a phobl ifanc yn cwmpasu ystod o gyllidebau. Ceir tri Cam Gweithredu penodol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant sy'n cwmpasu Gwasanaethau Plant, sef:

- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
- Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
- Rhaglenni CAFCASS Cymru.

**Trosolwg o'r Gyllideb - Newidiadau ers Cyllideb Derfynol 2011**

Dengys y tabl isod y cyllidebau ar gyfer y tri Cham Gweithredu hwn adeg y Gyllideb Ddrafft. Nodir manylion trosglwyddiadau unigol ar lefel Camau Gweithredu yn Atodiad A i'r papur hwn a cheir manylion cyllidebau ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn Atodiad B i'r papur hwn

| **Refeniw** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|
| | **£m** | **£m** |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol Plant** | | |
| **Llinell sylfaen** | 8.0 | 8.0 |
| **Newidiadau** | 0.4 | 0.4 |
| **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **8.4** | **8.4** |
| **Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd** | | |
| **Llinell sylfaen** | 120.7 | 130.7 |
| **Dim Newid** | | |
| **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **120.7** | **130.7** |
| **Rhaglenni CAFCASS Cymru** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Llinell sylfaen**<br>**Newidiadau** | 9.2<br>1.0 | 9.2<br>1.0 |
| **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **10.2** | **10.2** |
| **Cyfanswm y Refeniw** | **139.3** | **149.3** |
| | | |
| **Cyfalaf** | | |
| **Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd**<br>**Llinell sylfaen**<br>**Newidiadau** | <br><br>12.0 | <br><br>4.0 |
| **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **12.0** | **4.0** |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **12.0** | **4.0** |

**Newidiadau yn ystod y Flwyddyn Ariannol Gyfredol**

Mae'r newidiadau arfaethedig ar gyfer 2013-14 o gymharu â'r flwyddyn ariannol gyfredol a'r cynlluniau dangosol fel y'u cyhoeddwyd adeg Cyllideb Derfynol Tachwedd 2011 fel a ganlyn:

| | **2012-13 adeg Cyllideb Atodol Mehefin 2012** | **Cynllluniau Dangosol 2013-14** | **Cyllideb Arfaethedig 2013-14** | **Newid o'r Gyllideb Atodol** | **Newidiadau o'r Gyllideb Ddangosol** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Refeniw** | | | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 7.4 | 8.0 | 8.4 | 1.0 | 0.4 |
| Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | 102.7 | 120.7 | 120.7 | 18.0 | - |
| CAFCASS | 9.6 | 9.2 | 10.2 | 0.6 | 1.0 |
| **Is-gyfanswm** | **119.7** | **137.9** | **139.3** | **19.6** | **1.4** |
| | | | | | |
| **Cyfalaf** | | | | | |
| Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | - | - | 12.0 | 12.0 | 12.0 |
| **Is-gyfanswm** | | | **12.0** | **12.0** | **12.0** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | **119.698** | **137.9** | **151.3** | **31.6** | **13.4** |

Ceir crynodeb o'r prif newidiadau o gyllideb y flwyddyn gyfredol fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyllideb Atodol Mehefin 2012 isod:

**Refeniw**

- **£1.025 miliwn** o ran arian ar gyfer Plant Agored i Niwed
- **£16.500 miliwn** o arian ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg
- **£1.500 miliwn** o arian ychwanegol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf
- **£0.527 miliwn** o arian ychwanegol o ran costau rhedeg CAFCASS CYMRU

**Cyfalaf**

- **£12.000 miliwn** o arian ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg

**Newidiadau o gymharu â Chynlluniau Cyllideb Derfynol 2011**

Mae'r newidiadau o gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd yn ystod Cyllideb Derfynol Tachwedd 2011 fel a ganlyn:

**Refeniw**

- **£1.025 miliwn** o ran arian ar gyfer Plant Agored i Niwed
- **£0.996 miliwn** o arian ychwanegol o ran costau rhedeg CAFCASS CYMRU
- Trosglwyddiad o **£(0.629) miliwn** i Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran y rhaglen Sgrinio Smotiau Gwaed Babanod Newydd-anedig.

**Cyfalaf**

- **£12.000 miliwn** o arian ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg

Yn ogystal â hyn, mae Awdurdodau Lleol yn cael arian fel rhan o'u setliad refeniw i ddarparu eu gwasanaethau plant a theuluoedd.

Caiff y broses o ddarparu gwasanaethau'r GIG mewn perthynas â phlant, cyflyrau meddygol plant ac iechyd cyffredinol plant ei hariannu'n bennaf drwy'r dyraniadau refeniw blynyddol i Fyrddau Iechyd. Cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd yw pennu sut y caiff yr arian hwn ei ddefnyddio ymhob un o'u meysydd cyfrifoldeb i ddiwallu anghenion iechyd eu poblogaethau lleol.

Yn ogystal â'r symiau penodol a gyllidebwyd, mae sefydliadau'r GIG yn gwario tua £42 miliwn y flwyddyn ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (Ffynhonnell: Cyllidebau Rhaglenni Gwariant y GIG 2010-11; y Gyfarwyddiaeth Ystadegol; Llywodraeth Cymru 2012)

**Cyllidebu ar gyfer Plant**

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), adlewyrchwyd cyllidebu ar gyfer plant fel blaenoriaeth yng nghynllun gweithredu CCUHP i Gymru, sef 'Gwneud Pethau'n Iawn'. Mae Blaenoriaeth 15 yn ymwneud â 'Gwella tryloywder y gwaith o gyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru'. Caiff y flaenoriaeth hon hefyd ei hadlewyrchu yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sef 'Parhau i wella tryloywder y gwaith o gyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel Llywodraeth Cymru'.

Ers cyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae dyletswydd statudol bellach ar bob un o Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n rhan o CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu polisïau neu ddeddfwriaeth. Mae'r ddyletswydd newydd hon yn golygu bod yn rhaid i swyddogion sy'n gweithio ar bolisïau a deddfwriaeth sicrhau Gweinidogion eu bod wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a bod y polisi wedi ystyried hawliau plant a'i fod yn cydymffurfio â hawliau plant. O ganlyniad, bydd pob penderfyniad cyllidebol yn ei dro yn adlewyrchu hawliau plant. Mae hon yn ffordd llawer mwy effeithiol ac ystyrlon o ystyried hawliau plant fel rhan o'r broses o ystyried cyllidebau. Mae hefyd yn newid sylweddol yn y ffordd y mae Gweinidogion Cymru a swyddogion yn gweithio ac, i raddau helaeth, yn ymdrin â phryderon CCUHP a'i argymhellion yn 2008 a Blaenoriaeth 15 Cynllun Gweithredu CCUHP y Llywodraeth.

Fel rhan o'n hymrwymiad i CCUHP, rydym wedi datblygu dau becyn cymorth. Mae un ohonynt yn canolbwyntio ar allu ariannol ac yn cynnig gweithgareddau dysgu a all helpu pobl ifanc 11-19 oed i reoli eu cyllid personol yn well. Mae'r llall yn ymwneud â chyllidebu cyfranogol sy'n rhoi cyfle i awdurdodau lleol a'u partneriaid gynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau am y ffordd y caiff cyllidebau lleol eu gwario sy'n effeithio arnynt. Cyflwynwyd y ddau adnodd hyn ar ffurf peilot ledled Cymru gyda phobl ifanc o amrywiaeth eang o gefndiroedd gydag amrywiol lefelau gallu. Bellach mae swyddogion yn Is-adran y Cwricwlwm, Uned Addysg Ariannol Cymru a'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid wrthi'n datblygu'r adnoddau hyn. Rydym wedi gofyn i gydweithwyr yn y Gangen Cymwysterau ystyried y pecynnau cymorth hyn a'r ffordd y gallent ategu'r gwaith sy'n mynd rhagddo ganddynt ar hyn o bryd.

Mae'r pecynnau cymorth yn ymddangos ar nifer o wefannau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid a gellir eu defnyddio yn rhad ac am ddim.

Am y tro cyntaf, rydym yn darparu gwybodaeth symlach am gynigion y Gyllideb i blant a phobl ifanc. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am y Gyllideb yn fwy tryloyw i blant a phobl ifanc, ac i'r oedolion hynny a fydd yn dewis defnyddio'r fersiwn hon eu hunain.

**Blaenoriaethau**

**Rhaglen Dechrau'n Deg**

Rydym yn buddsoddi £74 miliwn ychwanegol (£55m o refeniw a £19m o gyfalaf) o 2012-13 hyd at 2014-15 o ran 'Dechrau'n Deg'. Caiff hyn effaith sylweddol ar gyfleoedd bywyd y rheini sy'n byw mewn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Rydym wedi rhoi fframwaith monitro trwyadl ar waith er mwyn asesu perfformiad awdurdodau lleol a'u hannog i wella. Datblygwyd cynlluniau recriwtio a hyfforddi strategol er mwyn bodloni gofynion y broses ehangu sylweddol hon o ran y gweithlu:

- Mae hyfforddiant eisoes ar waith ac mae Dechrau'n Deg yn ariannu ton gychwynnol o 63 o ymwelwyr iechyd dan hyfforddiant eleni;
- Mae awdurdodau lleol yn rhoi cynlluniau ar waith a fydd yn creu swyddi ac yn darparu'r gweithlu gofal plant a chymorth i deuluoedd estynedig sy'n ofynnol ar gyfer y rhaglen.

Bydd y £19 miliwn o arian cyfalaf (y cytunwyd ar £3 miliwn ohono ar gyfer 2012-13 ond nad yw'n ymddangos yn nhablau'r gyllideb eto) yn golygu y gellir cymeradwyo cyfanswm o 131 o brosiectau ledled Cymru.

Mae tystiolaeth gwaith gwerthuso hyd yma yn awgrymu bod Dechrau'n Deg yn dechrau cael effaith gadarnhaol bendant ar blant. Er enghraifft, pan fyddant yn dechrau'r ysgol, maent yn barod i ddysgu ac yn fwy hyderus wrth gymysgu â phlant eraill. Dengys canfyddiadau diweddar fod rhieni Dechrau'n Deg yn nodi eu bod wedi gweld newidiadau cadarnhaol o ran ymddygiad eu plentyn a bod eu hyder fel rhiant wedi gwella.

Mae gweithgarwch gwerthuso yn mynd rhagddo a disgwylir i ail don yr arolwg hydredol gael ei chyhoeddi yn ystod gwanwyn 2013. Ar yr un pryd, byddwn hefyd yn cyhoeddi canfyddiadau gwaith ymchwil ansoddol gyda theuluoedd sydd wedi cymryd rhan yn Dechrau'n Deg. Bydd y ddau ddarn pwysig hwn o waith yn ystyried y defnydd a wneir o Dechrau'n Deg a phrofiadau ohono ac yn darparu tystiolaeth bellach o'i heffaith ar ymddygiad rhianta a datblygiad plant.

**Cyflwyno Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD)**

Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol y cynllun arfaethedig ar gyfer cyflwyno GICD yn seiliedig ar fodel chwe rhanbarth yn unol â'r ôl troed diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Caiff Cymru gyfan ei chwmpasu drwy sefydlu 10 tîm GICD statudol, gyda dyletswyddau ar y 22 o awdurdodau lleol a'r 7 BILl i ddarparu GICD (ym maes rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau) yn eu hardaloedd, sef:

- Gogledd Cymru - dau dîm
- Canolbarth a Gorllewin Cymru - dau dîm
- Cwm Taf - un tîm
- Caerdydd a'r Fro - un tîm
- Gwent – dau dîm
- Bae'r Gorllewin - dau dîm

Cam nesaf cyflwyno GICD fydd Cam 3 (Consortiwm Bae'r Gorllewin - Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe) y bwriedir ei roi ar waith ym mis Ionawr 2013. Cynhelir Cam 4, sef cyflwyno GICD ymhellach yng Ngwent a Gogledd Cymru, erbyn diwedd 2013.

**Tlodi Plant**

Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud yn bwysicach fyth i ni gadw at ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant. Ein prif flaenoriaeth yn ddiau yw sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae tlodi yn effeithio ar eu bywydau yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phawb arall yng Nghymru.

Dyma pam mai Llywodraeth Cymru oedd un o'r sefydliadau cyntaf i basio deddfwriaeth benodol ar dlodi plant. Bellach, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill nodi pa gamau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi plant.

Rhoddodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ddyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant Cymru, a phennu amcanion penodol ar gyfer gwella canlyniadau plant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel. Cyflawnodd Gweinidogion Cymru y ddyletswydd hon - nododd **Strategaeth Tlodi Plant Cymru,** a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011, yr hyn y gallwn ei gyflawni i helpu i leihau tlodi plant a gwella canlyniadau teuluoedd incwm isel.
Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn nodi tri amcan penodol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru, sef: 1) Lleihau nifer y plant sy'n byw mewn cartrefi heb waith; 2) Gwella sgiliau pobl ifanc a rhieni er mwyn iddynt allu dod o hyd i swydd â chyflog da; a 3) Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran canlyniadau iechyd, canlyniadau addysg a chanlyniadau economaidd plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn nodi dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae'r **Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi**, a lansiwyd ym mis Mehefin 2012 fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu newydd, yn cynnwys y tri amcan strategol ac yn adlewyrchu'r ymrwymiad i ddileu Tlodi Plant erbyn 2020. Bydd y cynllun yn darparu diweddariadau rheolaidd ac mae'n cynnwys manylion canlyniadau mesuradwy er mwyn dangos cynnydd wrth roi'r strategaeth tlodi plant ar waith.

O ganlyniad i'r gwaith o ddatblygu'r **Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi**, llwyddwyd i sefydlu system gydweithredol yn cynnwys holl adrannau Llywodraeth Cymru a'n partneriaid i fynd i'r afael â'r materion difrifol iawn sy'n achosi tlodi yng Nghymru. Bydd hyn yn atgyfnerthu ein dull o fynd i'r afael â thlodi plant gan y bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ystod ehangach o raglenni i fynd i'r afael â thlodi gan ein helpu i ymdrin â chaledi sy'n effeithio ar genedlaethau gwahanol sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn.

Mae ein gallu i leihau tlodi plant yng Nghymru yn amlwg yn dibynnu ar gamau a gymerir gan Lywodraeth y DU, yn arbennig mewn meysydd annatganoledig megis treth a thaliadau lles.Rydym yn rhannu'r pryderon sydd gan lawer o bobl am gyflymdra'r diwygiadau lles a budd-daliadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gweithredu, a'r effeithiau posibl y bydd y newidiadau hyn yn eu cael ar blant yng Nghymru.

Dywed ein ffigurau diweddaraf wrthym fod lefelau tlodi yng Nghymru yn parhau'n gyndyn o uchel ac mae'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod rhan gyntaf y degawd diwethaf bellach wedi'i atal. Er bod nifer o ffactorau polisi

sy'n effeithio ar fynd i'r afael â thlodi incwm (megis newidiadau i'n system treth a budd-daliadau) o dan reolaeth Llywodraeth y DU, mae gan Lywodraeth Cymru ran hanfodol i'w chwarae - yn enwedig o ran gwella cyflogaeth, addysg, sgiliau a chanlyniadau iechyd teuluoedd incwm isel yn y tymor hwy.

**Dyletswydd Awdurdodau Lleol i ddatblygu Strategaethau Tlodi Plant:**

Mae swyddogion yn gweithio gyda swyddogion Byrddau Gwasanaethau Lleol i sicrhau bod camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi plant wedi'u nodi'n glir o fewn y Cynllun Gwella Ysgolion. Bwriedir cynnal gweithdy i ystyried y pecyn cymorth ar gyfer hunanasesu tlodi plant ar 19 Hydref. Mae croeso i unrhyw swyddogion BGLl ddod i'r gweithdy a fydd yn anelu at nodi a rhannu arfer gorau. Defnyddir contract Child Poverty Solutions Wales i hwyluso'r digwyddiad hwn.

**Teuluoedd yn Gyntaf - Ffocws ar Anabledd**

Roedd y Cynlluniau Teuluoedd yn Gyntaf sydd oll wedi'u cymeradwyo yn gofyn am ffocws penodol ac ychwanegol ar gymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd anabl. Neilltuwyd swm o £3,000,000 y flwyddyn i gefnogi gwaith yn y maes hwn.

Darparwyd enghreifftiau o waith â blaenoriaeth yng nghanllawiau'r rhaglen a nodwyd mewn cydweithrediad â'r ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri.

Bydd gwerthusiad y rhaglen yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar y defnydd o'r arian hwn ar arian cyffredinol y rhaglen.

**Camddefnyddio Sylweddau**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i neilltuo £3m o'r £22m a ddyrannwyd ym maes camddefnyddio sylweddau i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ledled Cymru er mwyn datblygu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc o dan 18 oed. Er mwyn helpu partneriaethau i wneud hyn, ym mis Ionawr 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o ganllawiau arfer da ar ofal integredig i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n camddefnyddio sylweddau.

**Gofal Newyddenedigol**

Nododd adroddiad Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Ofal Newyddenedigol, a gyhoeddwyd ar 12 Medi 2012, nifer o feysydd pwysig lle y gwnaed cynnydd ym maes gwasanaethau gofal newyddenedigol yng Nghymru. Bu gwelliannau amlwg o ganlyniad i gyflwyno'r system lleoli cotiau, defnyddio system gwybodaeth glinigol BadgerNet a'r gwasanaethau cludo babanod newydd-anedig 12 awr penodedig yng Ngogledd a De Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud 14 o argymhellion gan gynnwys yr angen i ymdrin â'r diffyg o ran staff meddygol a staff nyrsio a dosbarthu a defnyddio cotiau yn

effeithiol. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried ei hymateb i'r adroddiad y disgwylir iddi ei gyflwyno ar 24 Hydref.

Ym mis Mai 2012, gofynnodd Cyfarwyddwr y GIG i Brif Weithredwyr BILlau adolygu eu cynlluniau gweithredu newyddenedigol o ystyried yr adolygiad o gapasiti ac Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Ofal Newyddenedigol. Adolygwyd y cynlluniau hyn gan arweinydd y Rhwydwaith Newyddenedigol a chyfres o ymweliadau a gynhaliwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru i Fyrddau Iechyd. Daeth y Rhwydwaith Newyddenedigol i'r casgliad y bu cynnydd cyffredinol amlwg ers 2011 i ymdrin â materion yn deillio o'r adolygiad o gapasiti ac er mwyn cydymffurfio â Safonau Cymru Gyfan. Bellach mae gan bob Bwrdd Iechyd gynlluniau cadarn ar waith i ddatblygu gwasanaethau newyddenedigol er bod y cynnydd a wneir ar gyfraddau gwahanol. Bydd tîm y Rhwydwaith yn parhau i helpu Byrddau Iechyd i ddatblygu cynlluniau a'u rhoi ar waith. Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau o'r Rhwydwaith Newyddenedigol yn cynnal ymweliadau dilynol i bob Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn monitro cynnydd yn erbyn argymhellion y pwyllgor.

**CAMHS**

Ym mis Mehefin 2010, lansiodd Llywodraeth y Cynulliad gynllun gweithredu cenedlaethol i wella gwasanaethau iechyd meddwl plant, sef *Chwalu'r Rhwystrau: Ateb y Sialensau*, gyda dau grŵp amlasiantaeth yn helpu ac yn bwrw ati â gwaith y cynllun gweithredu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi atgyfnerthu'r amrywiaeth o CAMHS ledled Cymru, gan gynnwys mynediad i CAMHS arbenigol. Ers 2008, rydym wedi buddsoddi £6.9 miliwn ychwanegol yn y gwasanaethau hyn, ac er mwyn ategu hyn mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi darparu £8 miliwn i ddatblygu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion, gydag ysgolion uwchradd yn gallu cynnig cyngor emosiynol i blant a'u tywys at wasanaetahu eraill i gael cymorth, gan gynnwys CAMHS arbenigol, lle y bo angen.

Dangosodd gwaith mapio annibynnol a wnaed gan Brifysgol Durham o'r ddarpariaeth CAMHS, ar draws blynyddoedd 2006-07, 2008-09 a 2010-11, gynnydd o 25% yng gweithlu CAMHS yn ystod y cyfnod hwn. Dangosodd hefyd dwf yn nifer yr achosion a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd a gostyngiadau mewn rhestrau aros ac amseroedd aros.

Yn ogystal, cafodd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 Gydsyniad Brenhinol yn 2010, ac mae wrthi'n cael ei gychwyn yn ystod 2012. Bydd yn cefnogi gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy ehangu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, gan ein bod yn gwybod mai ar lefel gofal sylfaenol y mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio gwasanaethau ac y mae angen gwasanaethau arnynt ac yn sicrhau y caiff gofal ei gynllunio a'i gydgysylltu'n well er mwyn sicrhau bod pobl â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn cael yr holl wasanaethau sydd eu hangen arnynt. Caiff y Mesur ei ategu gan £5.5m o arian blynyddol.

O fis Hydref 2012, caiff y cyfeiriad strategol ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc ei ddwyn ynghyd ag iechyd meddwl oedolion a phobl hŷn i greu strategaeth newydd i bobl o bob oedran - Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Caiff llawer o'n cymorth ariannol i CAMHS ei gynnwys o fewn dyraniadau BILlau a'i ychwanegu at yr arian a neilltuwyd ar gyfer iechyd meddwl o 2013-14 (£2.035m i'w drosglwyddo yn erbyn cyfanswm cyllideb o £2.075m).

**ATODIAD A i Bapur y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc - Craffu ar y Gyllideb Ddrafft**

**Crynodeb o'r Newidiadau i 'Linellau'r gyllideb camau gweithredu' yn 2013-14**

**1. Gwasanaethau Cymdeithasol Plant**

Mae hwn yn ariannu amrywiaeth o raglenni a datblygiadau polisi i gefnogi plant sy'n agored i niwed, gan gynnwys Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a gwaith ar warchod a diogelu. . Ceir **cynnydd net** o £0.396 miliwn yn 2013-14 o ganlyniad i'r trosglwyddiadau canlynol rhwng Camau Gweithredu.

- **£1.025 miliwn** o'r Cam Gweithredu Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Phlant sy'n Agored i Niwed

- **£ (0.629 miliwn** i'r Cam Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus, mewn perthynas â Sgrinio Smotiau Gwaed Babanod Newyddanedig.

**2. Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd**

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu amrywiaeth o gymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd i'w helpu i gyflawni eu potensial. Mae rhaglenni wedi'u targedu fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg wedi'u cyfeirio at ein teuluoedd mwyaf difreintiedig er mwyn helpu i godi pobl o dlodi a rhoi gwell canlyniadau addysg, iechyd ac economaidd iddynt, ac mae rhaglenni ehangach yn cefnogi gofal plant a chwarae. Mae'r Cam Gweithredu hefyd yn ategu dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran cynnwys Confensiwn y

Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni sy'n rhoi hawliau'r plentyn wrth wraidd yr hyn a wnawn.
Ceir **cynnydd** mewn arian cyfalaf ar gyfer y Cam Gweithredu hwn fel a ganlyn:

- **£16m** o arian cyfalaf ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd o 2013-14 i ddatblygu'r seilwaith i roi rhaglen Dechrau'n Deg ar waith

DS: Ni chaiff y cyfalaf ychwanegol o £3 miliwn y cytunwyd arno yn 2012-13 ei gynnwys yn y tablau a gyhoeddir ar gyfer y gyllideb tan y Gyllideb Atodol nesaf yn ystod y flwyddyn (Ionawr 2013)

### 3. Rhaglenni CAFCASS Cymru

Mae CAFCASS Cymru yn sefydliad gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar blant sy'n darparu cyngor arbenigol o safbwynt gwaith cymdeithasol i lysoedd achosion teuluol, y Llysoedd Sirol a'r Uchel Lys. Mae'r arian hwn yn cefnogi dyletswyddau craidd y sefydliad, yn ogystal â rhwymedigaethau o dan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 gan gynnwys darparu canolfannau cyswllt a gweithgareddau cyswllt. Ceir **cynnydd** o £0.995 miliwn yn 2013-14 fel a ganlyn:

- **£0.995 miliwn** o Gyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas ag effaith gylchol arian 2012-13 ar gyfer costau rhedeg.

## HEALTH, SOCIAL SERVICES & CHILDREN MAIN EXPENDITURE GROUP - REMIT OF CYP COMMITTEE

**REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit**

| Actions (BELs) | 2012-13 Supplementary Budget June 2012 | 2013-14 Indicative Plans Final Budget November 2011 | 2013-14 Changes | 2013-14 New Plans Draft Budget | 2014-15 Indicative Plans Final Budget November 2011 | 2014-15 Changes | 2014-15 Indicative Plans Draft Budget |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grants in Support of Child and Family Services | 2,641 | 2,641 | | 2,641 | 2,641 | | 2,641 |
| Services for Children | 4,741 | 5,370 | 396 | 5,766 | 5,370 | 396 | 5,766 |
| **Children's Social Services** | **7,382** | **8,011** | **396** | **8,407** | **8,011** | **396** | **8,407** |
| | | | | | | | |
| Children's Commissioner | 1,688 | 1,607 | 108 | 1,715 | 1,607 | 108 | 1,715 |
| Families First | 47,498 | 48,998 | | 48,998 | 48,998 | | 48,998 |
| Information Sharing | 1,150 | 1,150 | | 1,150 | 1,150 | | 1,150 |
| Flying Start | 46,494 | 62,994 | | 62,994 | 72,994 | | 72,994 |
| Support for Children's Rights | 1,413 | 1,413 | -108 | 1,305 | 1,413 | -108 | 1,305 |
| Advocacy | 850 | 850 | | 850 | 850 | | 850 |
| Child Poverty | 572 | 710 | | 710 | 710 | | 710 |
| Childcare & Play Strategies | 3,016 | 3,016 | | 3,016 | 3,016 | | 3,016 |
| **Children, Young People and Families** | **102,681** | **120,738** | **0** | **120,738** | **130,738** | **0** | **130,738** |
| | | | | | | | |
| CAFCASS Cymru Revenue | 9,635 | 9,167 | 995 | 10,162 | 9,167 | 995 | 10,162 |
| **CAFCASS Cymru Programmes** | **9,635** | **9,167** | **995** | **10,162** | **9,167** | **995** | **10,162** |
| | | | | | | | |
| **Total Revenue - Health, Social Services and Children (Remit of CYP)** | **119,698** | **137,916** | **1,391** | **139,307** | **147,916** | **1,391** | **149,307** |

**CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit**

| Actions | 2012-13 Supplementary Budget June 2012 | 2013-14 Indicative Plans Final Budget November 2011 | 2013-14 Changes | 2013-14 New Plans Draft Budget | 2014-15 Indicative Plans Final Budget November 2011 | 2014-15 Changes | 2014-15 Indicative Plans Draft Budget |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **12,000** | **12,000** | **0** | **4,000** | **4,000** |
| Flying Start | 0 | 0 | 12,000 | **12,000** | 0 | 4,000 | **4,000** |
| **Children, Young People and Families** | **0** | **0** | **12,000** | **12,000** | **0** | **4,000** | **4,000** |
| | | | | | | | |
| **Total Capital - Health, Social Services and Children** | **0** | **0** | **12,000** | **12,000** | **0** | **4,000** | **4,000** |

| Health, Social Services and Children (Remit of CYP) - Summary | 2012-13 Supplementary Budget June 2012 | 2013-14 Indicative Plans Final Budget November 2011 | 2013-14 Changes | 2013-14 New Plans Draft Budget | 2014-15 Indicative Plans Final Budget November 2011 | 2014-15 Changes | 2014-15 Indicative Plans Draft Budget |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| Revenue DEL | 119,698 | 137,916 | 1,391 | 139,307 | 147,916 | 1,391 | 149,307 |
| Capital DEL | 0 | 0 | 12,000 | 12,000 | 0 | 4,000 | 4,000 |
| **Total DEL** | 119,698 | 137,916 | 13,391 | 151,307 | 147,916 | **5,391** | **153,307** |
| | | | | | | | |
| **Total - Health, Social Services and Children (Remit of CYP)** | **119,698** | **137,916** | **13,391** | **151,307** | **147,916** | **5,391** | **153,307** |